# Cyngor Sir Caerfyrddin

# Adolygiad Cymunedol 2023

# Cylch Gorchwyl

Adolygiad Cymunedol o dan Adran 31 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

Tabl Cynnwys

**Cefndir ……... ………………………………………………………………… 3**

Beth yw Adolygiad Cymunedol? ……………………………………………………… 3

Pam mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnal yr adolygiad hwn? …………… 3

Cwmpas yr adolygiad………………………………………………………………….. 4

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ………………………… 4

Beth mae Cynghorau Cymuned yn ei wneud? ……………………………………… 4

**Ymgynghori…………………………………………………………………4**

Sut mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal ymgyngoriadau yn ystod yr adolygiad……………4

Amserlen yr adolygiad ……………………………………………………………… 5

Gwybodaeth gefndir

Gwneud sylwadau………………………………………………………………7

## Cefndir

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi penderfynu cynnal Adolygiad Cymunedol o'r sir gyfan. Mae dyletswydd ar y Cyngor i adolygu trefniadau cymunedol.

Wrth gynnal yr adolygiad, bydd y Cyngor yn cael ei arwain gan Adran 31 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

Mae'r Cyngor wedi datblygu a chyhoeddi Cylch Gorchwyl ar gyfer yr adolygiad cymunedol hwn.

Bydd y Cylch Gorchwyl yn nodi amserlen a gweithdrefnau arfaethedig yr adolygiad, yn cynnig arweiniad ac yn nodi'r materion a fydd yn cael eu hystyried yn ystod yr adolygiad. Bydd y Cylch Gorchwyl yn sicrhau bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn dilyn gweithdrefn benodol ac yn nodi ystyriaethau priodol ar gyfer yr adolygiad, ac yn caniatáu i bartïon sydd â diddordeb ddeall sut i gymryd rhan yn effeithiol yn yr adolygiad.

### Beth yw Adolygiad Cymunedol?

Mae Adolygiad Cymunedol a wneir o dan Adran 31 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn broses lle gall Cyngor Sir Caerfyrddin ystyried y canlynol:

●nifer aelodau'r cyngor ar gyfer y gymuned,

●rhannu'r gymuned yn wardiau (os yw'n briodol) at ddibenion ethol cynghorwyr,

●nifer a ffiniau unrhyw wardiau,

●enw unrhyw ward.

Rhaid i'r Adolygiad Cymunedol adlewyrchu hunaniaeth a buddiannau cymunedau a dylai ystyried effaith trefniadau llywodraethu cymunedol ar gydlyniant a maint, poblogaeth a ffiniau cymuned leol.

Wrth gynnal adolygiad cymunedol, rhaid i brif gyngor hefyd ystyried ei rwymedigaethau statudol eraill sy'n ymwneud â'r adolygiad, er enghraifft ei rwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Safonau'r Gymraeg a Deddf Cydraddoldeb 2010, a fydd i gyd yn dylanwadu ar y dull cynnal a'r penderfyniadau a wneir yn ystod adolygiad cymunedol, ac yn ei lywio.

## Pam mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnal yr adolygiad hwn?

Mae gan brif gynghorau ddyletswydd o dan delerau'r Ddeddf i gyhoeddi adroddiad a chyflwyno'r adroddiad ar eu trefniadau cymunedol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru bob deng mlynedd. Mae'n ofynnol hefyd i'r Comisiwn gynnal adolygiadau etholiadol o brif gynghorau bob deng mlynedd. Yn ddelfrydol, dylai Adolygiad Cymunedol ragflaenu adolygiad etholiadol o'r prif gyngor gan y Comisiwn, gan y bydd y gymuned a'r wardiau cymunedol o fewn ardal y prif gyngor yn cael eu defnyddio yn brif flociau adeiladu ar gyfer wardiau etholiadol y prif gyngor.

Fel prif awdurdod, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gyfrifol am gynnal Adolygiadau Cymunedol yn ei ardal. Bydd y Cyngor yn cymeradwyo'r argymhellion terfynol cyn gwneud Gorchymyn Cymunedol.

Prif gysylltiadau'r adolygiad yw:

Amanda Edwards, Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol a Chofrestru Sifil

Dylan Price, Swyddog Gwasanaethau Etholiadol

Shelley Williams, Swyddog Gwasanaethau Etholiadol

## Cwmpas yr adolygiad

Bydd yr Adolygiad yn ystyried unrhyw geisiadau Adolygiad Cymunedol a ddaw i law ar ôl cyhoeddi'r Cylch Gorchwyl.

## Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (y Ddeddf), mae gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) ddyletswydd gyffredinol i fonitro'r trefniadau o ran llywodraeth leol ledled Cymru. Mae'r Comisiwn yn argymell y dylai hyn gael ei gynnwys mewn unrhyw ymgynghoriad neu wybodaeth sy'n cael ei dosbarthu gan y prif gyngor fel rhan o'r Adolygiad Cymunedol.

## Beth mae Cynghorau Cymuned yn ei wneud?

Cynghorau Tref a Chymuned yw'r math mwyaf lleol o lywodraeth a gallant fod yn berchen ar dir ac asedau, cyflogi staff ac yn darparu gwasanaethau ar lefel leol. Gall Cynghorau Tref/Cymuned roi llais lleol i'r gymuned, gan ymateb i ymgyngoriadau a chodi pryderon gyda'r sefydliadau perthnasol.

Mae Cyngor Tref/Cymuned yn cynnwys Cynghorwyr Cymuned sy'n cael eu hethol gan etholwyr llywodraeth leol yn y gymuned, ac mae etholiadau'n cael eu cynnal bob pum mlynedd. Mae swyddi gwag yn ystod y cyfnod o bum mlynedd yn cael eu llenwi drwy gyfethol neu drwy is-etholiad os yw etholwyr llywodraeth leol yn gofyn am hynny.

## Ymgynghori

## Sut mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal ymgyngoriadau yn ystod yr adolygiad

Mae'r cylch gorchwyl hwn yn amlinellu nodau'r adolygiad, y ddeddfwriaeth sy'n llywio'r broses a'r meysydd y bydd y Cyngor yn eu hystyried fel rhan o'r broses adolygu.

Bydd y Cyngor yn ymgynghori'n eang ynghylch yr adolygiad, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

●Etholwyr llywodraeth leol

●Cynghorau Cymuned

●Cynghorwyr Sir

●Aelodau o'r Senedd

●Aelodau Seneddol

Cyn gwneud argymhellion neu gyhoeddi cynigion terfynol, bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth lawn i'r safbwyntiau a'r awgrymiadau a gyflwynwyd gan bobl a sefydliadau lleol a bydd yn cydymffurfio â'r gofynion ymgynghori statudol drwy:

●Ymgynghori ag etholwyr llywodraeth leol ac unigolion neu gyrff eraill y mae'n ymddangos i'r Cyngor fod ganddynt fuddiant yn yr adolygiad,

●Ystyried unrhyw sylwadau a gafwyd mewn perthynas â'r adolygiad,

●Rhoi gwybod i ymgyngoreion am ganlyniad yr adolygiad,

●Cyhoeddi pob penderfyniad a wnaed a'r rhesymau dros benderfyniadau o'r fath.

Bydd gwybodaeth am bob cam o'r adolygiad yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor. Cyhoeddir datganiadau i'r wasg a chyhoeddusrwydd arall lle bo hynny'n briodol.

Bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i bob ymgynghorai ac unrhyw unigolion neu gyrff eraill sydd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig am ganlyniad yr adolygiad.

## Amserlen yr adolygiad

Bydd yr Adolygiad Cymunedol yn cychwyn pan fydd y Cyngor yn cyhoeddi ei gylch gorchwyl ac yn dod i ben pan fydd yn cyhoeddi'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiad.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r amserlen ar gyfer yr adolygiad.

| Cam | Cam Gweithredu | Dyddiad |
|---|---|---|
| Adroddiad i Rag-gyfarfod y Cabinet<br><br>Y Cyngor Llawn | Y Cyngor yn cymeradwyo egwyddor yr Adolygiad Cymunedol a'i Gylch Gorchwyl. | 20 Chwefror 2023<br><br>8 Mawrth 2023 |
| **Ymgynghoriad Cyhoeddus 1** | Cyfnod ymgynghori o chwe wythnos yn dechrau gyda chyhoeddi Cylch Gorchwyl yr Adolygiad. | 13 Mawrth 2023 |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus yn dod i ben | Archwilio ac ystyried yr holl sylwadau. | 24 Ebrill |
| Ystyried y sylwadau a pharatoi adroddiad i'r Cyngor llawn. | Argymhellion drafft i'w hystyried gan y Cyngor a'u cymeradwyo ar gyfer ymgynghori pellach. | Rhag-gyfarfod y Cabinet 22 Mai 2023<br><br>Cyngor Llawn 14 Mehefin 2023 |
| **Ymgynghoriad Cyhoeddus 2** | 1. Ymgynghoriad chwe wythnos gyda rhanddeiliaid | 19 Mehefin 2023 |

| | | |
|---|---|---|
| | ar argymhellion drafft<br>2. Paratoi'r argymhellion terfynol. | |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus yn dod i ben | Archwilio ac ystyried yr holl sylwadau. | 31 Gorffennaf 2023 |
| Ystyried y sylwadau a pharatoi adroddiad terfynol i'r Cyngor llawn | Argymhellion terfynol i'w hystyried gan y Cyngor | Rhag-gyfarfod y Cabinet 18 Medi 2023<br><br>Cyngor Llawn 11 Hydref 2023 |
| Cyhoeddi'r argymhellion terfynol fel y cytunwyd gan y Cyngor Llawn | Cyhoeddi'r argymhellion terfynol fel y cytunwyd gan y Cyngor Llawn a gwneud Gorchymyn | 16 Hydref 2023 |
| Gorchymyn yn dod i rym | Yr etholiadau llywodraeth leol nesaf | Mai 2027 |

## Gwybodaeth Gefndir

Mae arfer da wedi awgrymu y dylai fod o leiaf saith cynghorydd ar gyfer unrhyw gyngor plwyf/tref neu gymuned ac uchafswm o 25.

Wrth ystyried maint y cyngor, mae Cyngor Sir Caerfyrddin o'r farn y dylid ystyried pob ardal yn ôl ei rhinweddau ei hun, gan roi sylw i'w phoblogaeth, daearyddiaeth a phatrwm y cymunedau. Serch hynny, o ystyried pwerau presennol cynghorau tref a chymuned, dylai roi ystyriaeth i'r patrwm bras o ran meintiau presennol y cynghorau. Mae'n ymddangos bod y patrwm hwn wedi gwrthsefyll prawf amser ac, yn absenoldeb tystiolaeth i'r gwrthwyneb, ymddengys ei fod wedi darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Dylai prif gynghorau gofio hefyd nad oes angen corff mawr o gynghorwyr i gynnal busnes cynghorau tref a chymuned fel arfer. Yn ogystal, yn hanesyddol, mae llawer o gynghorau tref/cymuned, yn enwedig cynghorau llai, wedi cael trafferth denu digon o ymgeiswyr i sefyll mewn etholiad. Mae hyn wedi arwain at etholiadau un ymgeisydd a/neu gyfethol aelodau er mwyn llenwi swyddi gwag.

Cymhareb Etholwyr:Cynghorwyr a argymhellir

| Etholwyr | Cynghorwyr | Etholwyr | Cynghorwyr |
|---|---|---|---|
| Hyd at 900 | 7 | Hyd at 10,400 | 17 |
| 1,400 | 8 | 11,900 | 18 |
| 2,000 | 9 | 13,500 | 19 |
| 2,700 | 10 | 15,200 | 20 |
| 3,500 | 11 | 17,000 | 21 |
| 4,400 | 12 | 18,900 | 22 |
| 5,400 | 13 | 20,900 | 23 |
| 6,500 | 14 | 23,000 | 24 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7,700 | 15 | 45,000 | 25 |
| 9,000 | 16 | | |

## Gwneud sylwadau

Os hoffech gyflwyno sylwadau ar yr Adolygiad Cymunedol, e-bostiwch: AmEdwards@sirgar.gov.uk

Fel arall, gellir anfon sylwadau drwy'r post:

Adolygiad Cymunedol

Gwasanaethau Etholiadol

Bloc 4

Parc Myrddin

Waun Dew

Caerfyrddin

SA31 1HQ

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ynglŷn â'r adolygiad, cysylltwch ag Amanda Edwards, Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol a Chofrestru Sifil, drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost/post uchod, neu dros y ffôn: 01267 228609.